# CABINET

Cofnodion cyfarfod o'r Cabinet a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mawrth, 24 Mai 2016 am 10.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros yr Economi; Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Wasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant; Hugh Irving, Aelod Arweiniol dros Gwsmeriaid a Llyfrgelloedd; Huw Jones, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Cymunedol; Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Thai; David Smith, Aelod Arweiniol y Parth Cyhoeddus a Pherfformiad ac Eryl Williams, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Addysg.

**Arsylwyr:** Y Cynghorwyr Ray Bartley, Joan Butterfield, Meirick Davies, Martyn Holland, Barry Mellor, Arwel Roberts a Huw Williams

## HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Economi a'r Parth Cyhoeddus (RM) a Chymunedau (NS); Penaethiaid Gwasanaeth: Cyfreithiol, AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW) a Phennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol (PG); Uwch Reolwr – Cefnogaeth i Fusnes (TW); Swyddog Prosiect – Ymgynghoriad Darparwyr Gwasanaeth mewnol (HE) Rheolwr Prosiect Rheoli Gwastraff (JE); Prif Swyddog Cyllid (RW) a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Aelod Arweiniol ar gyfer Cyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 3 MATERION BRYS

Ni chafwyd unrhyw faterion brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016.

Cywirdeb – Tudalen 9: Eitem 6, Ymrwymiad Aelodau mewn Apeliadau – Gofynnodd y Cynghorydd Barbara Smith pe gellid cofnodi ei bod wedi rhoi gwybod i'r Cabinet nad oedd digon o aelodau yn bresennol ar y Cydbwyllgor Ymgynghorol Lleol i ffurfio cworwm pan drafodwyd y mater a bod aelodau wedi cytuno y gellid pasio eu barn ymlaen at y Cabinet.

***PENDERFYNWYD*** *yn ddibynnol ar bwynt cywirdeb, y dylid cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Ebrill 2016 fel cofnod cywir ac y dylai'r Arweinydd eu llofnodi.*

**5 ADOLYGIAD AC YMGYNGHORIAD GWASANAETHAU GOFAL MEWNOL**

Nododd yr Arweinydd y byddai'n ddefnyddiol darparu peth cyd-destun, gan fod y broses adolygu yn un gymhleth oedd yn cymryd amser. O ganlyniad, gwahoddodd y rheiny sy'n ymwneud â'r broses i siarad gyda'r Cabinet.

Eglurodd y Cynghorydd Meirick Daves, aelod a chyn Gadeirydd y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i gynorthwyo gyda'r adolygiad, am aelodaeth y Grŵp, ei bwrpas, ei sgôp a'i amserlenni a oedd wedi arwain at eu hargymhellion i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad. Gofynnwyd i'r Grŵp Tasg a Gorffen archwilio'r opsiynau gwerth am arian ar gyfer darparu gwasanaethau gofal cymdeithasol o ansawdd uchel yn y Sir. Manylodd y Cynghorydd Davies ar rôl y Grŵp wrth arolygu'r broses gynllunio ar gyfer yr ymgynghoriad ac archwilio opsiynau posib dros y ddwy flynedd diwethaf, gan arddangos natur gymhleth a gwytnwch y broses. Talodd deyrnged hefyd i waith y diweddar Gynghorydd Richard Davies a'i gyfraniad tuag at y broses.

Adroddodd y Cynghorydd Barry Mellor, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar archwiliad craff y pwyllgor o ganfyddiadau, casgliadau a chynigion y Grŵp Tasg a Gorffen yn ystod eu cyfarfod ar 12 Ebrill 2016. Roedd wedi ei siomi mai ymateb gwael gafwyd gan y cyhoedd i'r broses ymgynghori er bod y mater yn un uchel ei broffil. Yn gyffredinol roedd y Pwyllgor Archwilio Perfformiad yn fodlon â chanfyddiadau ac argymhellion y Grŵp Tasg a Gorffen. Wrth greu argymhelliad y pwyllgor i'r Cabinet cynhwyswyd cafeatau ychwanegol o safbwynt cynnwys dadansoddiad cymharol o gostau, safon gofal a darpariaeth cyfrwng Cymraeg rhwng y darparwr cyfredol ac unrhyw wasanaeth posib. Cadarnhaodd y Cynghorydd Mellor ei fod yn gyfforddus gyda'r argymhellion sydd wedi eu rhoi gerbron y Cabinet.

Diolchodd y Cynghorydd Bobby Feeley i aelodau a swyddogion am eu mewnbwn i'r broses hyd yma ac am eu holl waith caled. Amlinellodd yr achos dros newid gan gymryd i ystyriaeth ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r angen i foderneiddio gwasanaethau mewn ymateb i ddemograffeg newidiol ac anghenion y cyhoedd mewn amgylchiadau ariannol anodd. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r wybodaeth gafodd ei gasglu o'r ymgynghoriad cyhoeddus a barn y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wrth ystyried adroddiad y Grŵp Tasg a Gorffen a sefydlwyd i ddadansoddi'r wybodaeth ac argymell ffordd ymlaen. Roedd gwybodaeth a thystiolaeth a ystyriwyd fel rhan o'r adolygiad wedi ei gynnwys mewn atodiadau i'r adroddiad.

Ar y pwynt hwn rhoddodd Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a Phrif Reolwr – Cymorth Busnes gyflwyniad PowerPoint ar y dystiolaeth o'r ymgynghoriad cyhoeddus oedd yn canolbwyntio ar y meysydd allweddol canlynol -

- eglurwyd sut roedd yr egwyddorion cyfreithiol o amgylch yr ymgynghoriad wedi eu cwrdd, a natur yr ymgynghoriad

- manylodd ar yr achos dros newid gan gymryd i ystyriaeth y gofyn am fathau o ofal cymdeithasol ac anghenion trigolion lleol a darparu deilliannau gwell, gan alluogi pobl i fod yn annibynnol am fwy o amser a chymryd cost darparu gwasanaeth i ystyriaeth
- manylodd ar yr opsiynau am bob un o'r pedwar sefydliad gofal yn ogystal â'r rhesymau dros bob dewis
- rhoddodd grynodeb o'r ymgynghoriad cyhoeddus yn ogystal â throsolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd, y prif bryderon a godwyd ac ymateb y Cyngor i hynny a oedd wedi ei nodi o fewn yr atodiadau i'r prif adroddiad.

Trafododd y Cabinet yr adroddiad gyda'r Aelod Arweiniol a swyddogion a cheisiwyd sicrwydd ynghylch nifer o faterion a chodwyd cwestiynau pellach fel a ganlyn -

- os bydd Cabinet yn cymeradwyo'r argymhellion rhoddwyd sicrwydd y byddai gwasanaethau yn parhau fel arfer yn y cyfamser, gan gynnwys derbyniadau i gartrefi gofal cyn belled ag y gellid cwrdd gofynion yr unigolion hynny.
- ymhelaethodd swyddogion ymhellach dros yr achos am newid gan gynghori bod galw am wasanaethau gofal dydd a gofal preswyl safonol yn lleihau ond bod galw'n cynyddu am wasanaethau iechyd meddwl a chartrefi nyrsio arbenigol yn ogystal â gwasanaethau eraill sy'n hyrwyddo annibyniaeth.
- derbyniwyd llythyr gan Gomisiynydd y Bobl Hŷn am ddyfodol gwasanaethau gofal a darparwyd ymateb manwl i'r materion a godwyd – nid wedi nodi nad oes galw bellach am ofal preswyl safonol oedd y Cyngor, ond dweud mai nifer fechan o bobl sy'n gofyn am y ddarpariaeth honno a bod y galw yn lleihau. Fodd bynnag roedd cynnydd mewn galw am ofal preswyl a gofal nyrsio arbenigol nad oedd y Cyngor yn ei ddarparu. Byddai'r opsiynau a argymhellwyd yn cynyddu'r amrywiaeth o wasanaeth a ddarperir
- Nodwyd bod gwrthwynebiad i'r cynigion ac y byddai ansicrwydd ynghylch dyfodol cartrefi gofal yn achosi pryder a straen. Ceisiodd Cabinet sicrwydd na fyddai unrhyw unigolyn o dan anfantais o ganlyniad i'r broses ac y byddai eu hanghenion yn dal i gael eu cwrdd. Oherwydd yr effaith bosib ar ddefnyddwyr gwasanaeth, eu teuluoedd, staff a'r gymuned ehangach, amlinellwyd pwysigrwydd sicrhau bod pawb yn cael gwybod beth sy'n digwydd yn ystod y broses gyfan fel blaenoriaeth allweddol. Pwysleisiodd swyddogion y byddai'r gwasanaethau yn parhau fel ag y maent yn y cyfamser a bod y Cabinet eisoes wedi penderfynu na fyddai angen i unrhyw un symud os nad oeddent am wneud hynny ac y gellid cwrdd eu gofynion yno hefyd. Cytunodd Swyddogion bod cyfathrebu yn fater allweddol ac y byddai pawb yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau wrth iddynt ddigwydd
- diolchwyd i Unison am gefnogi staff drwy'r broses a dywedodd swyddogion bod cynnig amgen Unison wedi ei ystyried yn ofalus ond nad oedd yn mynd i'r afael â'r lleihad yn y galw am ofal preswyl a'r angen i ddatblygu dewisiadau galluogi amgen i wasanaeth presennol. Ers mis Chwefror roedd y nifer o breswylwyr parhaol yng nghartrefi gofal y Cyngor wedi lleihau eto yn gyffredinol [roedd un preswylydd ychwanegol yng Nghysgod y Gaer].

Roedd manylion am y dewisiadau ar gyfer y pedwar sefydliad gofal yn yr adroddiad a chawsant eu hystyried ar wahân gyda'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y canlynol -

**Hafan Deg, (Y Rhyl)**

Pwysleisiodd y Cabinet bwysigrwydd y ganolfan gymunedol i'r gymuned ehangach, yn enwedig i drigolion War Court Memorial ac roedd am gael sicrwydd o safbwynt hynny. Cynghorwyd y Cabinet bod pwysigrwydd y ganolfan wedi ei chydnabod yn ystod y broses ymgynghori ac mai'r bwriad oedd cynyddu defnydd yr adnoddau gyda'r gwasanaethau ar gael i'r gymuned ehangach, gan gynnwys tenantiaid War Memorial Court, a fyddai'n gynwysedig mewn unrhyw Gytundeb Lefel Gwasanaeth yn y dyfodol.

Amlinellodd y Cynghorydd Joan Butterfield y gwasanaethau gwerthfawr a ddarperir gan Hafan Deg ac roedd yn teimlo nad oedd y dewisiadau yn ddigon cynhwysfawr. Roedd yn credu y dylid costio'r elfen breswyl a'r elfen gofal dydd ar wahân a'i fod yn angenrheidiol bod gwasanaethau gofal dydd yn parhau. Roedd yn teimlo y dylai gwasanaethau adsefydlu a gofal dydd weithio mewn partneriaeth ac y dylent gael eu harchwilio ymhellach gydag opsiynau i gadw'r gwasanaeth yn fewnol. Bu iddi gwestiynu os oedd digon o ddiddordeb gan ddarparwyr allanol i fynd ymlaen â'r broses, ac os oedd yr opsiwn hwnnw yn cael ei geisio, a ellid rhoi sicrwydd na fyddai'r gwasanaeth yn cael ei ddileu yn y dyfodol. Cytunodd swyddogion bod gwasanaethau gofal dydd yn bwysig ond nid oedd yn rhaid iddynt gael eu darparu gan y Cyngor. Roedd gan y Cyngor gyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau bod gofynion unigol yn cael eu cwrdd petai gwasanaeth yn methu. Roedd yr argymhelliad yn cynnwys dadansoddiad cost cymharol a fyddai'n golygu y gellid gwneud penderfyniad ar sail costau. Byddai unrhyw adeiladu a drosglwyddwyd o dan y cynigion yn debygol o fod ar brydles hir dymor gydag amodau'n gysylltiedig, a byddai'r ddarpariaeth o wasanaethau yn ddarostyngedig i gytundeb yn diogelu rhag dileu darpariaeth gwasanaeth. Pe na gellid dod o hyd i bartner yna byddai'r broses adolygu yn ail ddechrau.

**Dolwen (Dinbych)**

Cydnabu'r Cabinet bwysigrwydd y ganolfan gofal dydd a cheisiodd sicrwydd y byddai'r ddarpariaeth yn cael ei hymestyn yn hytrach na'i dileu. Cadarnhaodd swyddogion bod opsiynau'n cael eu harchwilio ar gyfer yr elfen gofal dydd a'r elfen gofal preswyl er mwyn sicrhau y gallai gofal dydd gefnogi pobl gydag anghenion iechyd meddwl. Nid yw staff ar hyn o bryd wedi eu cofrestru i ddarparu gofal iechyd meddwl na gofal nyrsio ac roedd angen mynd i'r afael â'r broblem hon yn yr ardal.

Nododd y Cynghorydd Ray Bartley bod Dolwen wedi bod yn darparu gofal o safon uchel am hanner canrif a thalodd deyrnged i'r staff am y gofal a geir yno. Wrth amlygu Dolwen fel adnodd gofal gwbl angenrheidiol cefnogodd y cynnig ar gyfer darpariaeth iechyd meddwl ychwanegol i'r henoed. Roedd y Cynghorydd Arwel Roberts o'r farn bod cyllid yn gyrru'r newidiadau arfaethedig ac fe amlinellodd bwysigrwydd darparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg dros yr holl adnoddau gofal a cheisiodd sicrwydd pellach o safbwynt hynny. Cadarnhaodd swyddogion bod darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn hollbwysig i ddarparu gwasanaethau gofal boed yn y cartref neu mewn lleoliadau preswyl a bod dadansoddiad o ddarpariaeth Gymraeg wedi ei gynnwys o fewn yr opsiynau a argymhellwyd. O safbwynt cyllid, cynghorodd swyddogion mai'r prif yrrwr ar gyfer y newid oedd cynaliadwyedd neu wasanaethau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol drwy

ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau a chwrdd gofynion mewn ffyrdd mwy amrywiol.

**Awelon (Rhuthun)**

Roedd yr adroddiad yn argymell bod y tri opsiwn yn cael ei archwilio mewn mwy o fanylder.

Cododd y Cynghorydd David Smith y materion canlynol:-

- o safbwynt Opsiwn 3 ceisiwyd sicrwydd y byddai'r safleoedd ysgol presennol (Ysgol Pen Barras / Stryd Rhos) yn cael eu hystyried ar gyfer y cynnig hwn yn ogystal â safleoedd posib eraill
- cynghorwyd bod hanesion celwyddog yn cylchredeg ac fod pobl o ganlyniad yn credu nad oedd derbyniadau i Awelon yn bosib bellach, er nad oedd hyn yn wir. Mae angen neges glir yn nodi bod opsiynau yn cael eu harchwilio ond bod gwasanaethau yn rhedeg fel arfer yn y cyfamser.
- nodwyd bod llawer iawn yn gwneud defnydd o Ganolfan Awelon a cheisiwyd sicrwydd y byddai adnodd cyfwerth neu well yn cael ei darparu pe byddai rhaid dileu/ail ddylunio'r ganolfan fel rhan o unrhyw gynlluniau yn y dyfodol.

Rhoddwyd yr ymatebion canlynol -

- cynghorodd swyddogion bod gwybodaeth am weithrediad Awelon wedi ei atgyfnerthu yn ystod y broses ymgynghori a chadarnhawyd y byddent yn parhau i anfon neges glir allan o safbwynt hynny.
- cynhaliwyd cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Ganolfan Awelon fel rhan o'r broses ymgynghori a rhoddwyd cydnabyddiaeth o'r gwasanaeth gwerthfawr yr oedd yn ei ddarparu i'r henoed yn ogystal ag i'r gymuned ehangach – byddai'r Tîm Rheoli yn cael gwybod am unrhyw ddatblygiadau. Rhoddwyd sicrwydd y byddai'r sefydliad fyddai'n darparu gofal ychwanegol yn darparu gwasanaeth cyfwerth, os nad gwell, na'r ddarpariaeth bresennol.
- Soniodd y Cynghorydd Eryl Williams bod y potensial o ddefnyddio'r safle ysgol ddeuol bresennol ar gyfer darpariaeth gofal iechyd, unwaith y bydd yn wag, eisoes wedi ei godi. Ychwanegodd swyddogion bod cydweithwyr yn y Bwrdd Iechyd wedi cael gwybod am y cais gan aelodau am wasanaeth iechyd dwysach yn ardal Rhuthun. Roeddynt hefyd yn ymwybodol o sut roedd yr opsiynau a argymhellwyd wedi eu datblygu a'r bwriad am wasanaethau mwy integredig yn y dyfodol.

**Cysgod y Gaer (Corwen)**

Roedd y Cynghorydd Huw Jones yn falch o nodi'r cynnig i symud ymlaen gyda'r argymhelliad ar gyfer Cysgod y Gaer, sef yr unig gartref gofal yn yr ardal i wasanaethu anghenion Corwen a'r ardal gyfagos. Roedd yn siomedig o weld yr ymateb isel i'r ymgynghoriad a byddai'n pwysleisio o fewn y gymuned, y pwysigrwydd o fynegi barn a dewisiadau. Cymrodd y Cynghorydd Jones y cyfle hwn hefyd i ategu pwysigrwydd darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y sir. Mewn ymateb i gwestiynau a godwyd, ymatebodd swyddogion fel a ganlyn -

- mae’r nifer o drigolion wedi cynyddu o 16 i 17 ers mis Chwefror
- nid oedd cynlluniau cyfredol i drosglwyddo staff ond pe byddai angen gwneud hynny rhoddwyd sicrhad y byddai’r undebau’n ymwneud â’r broses hynny. Byddai trefniadau partneriaeth yn gwella’r gwasanaeth cyfredol ac yn golygu y byddai staff o sefydliadau partner yn gweithio o'r safle.
- cydnabuwyd pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ar draws y sir, oedd yn elfen hollbwysig o'r cynigion.

Yn ystod y drafodaeth codwyd cwestiynau am rôl y GIG yn y broses yn gyffredinol a’r angen am gydweithredu gwell wrth ystyried prosiectau gofal cymdeithasol. Cadarnhaodd swyddogion bod y Cyngor yn gweithio’n agos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar lefel strategol a gweithredol er mwyn gwella deilliannau. Amlinellwyd gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, gan gynnwys sefydlu byrddau rhanbarthol er mwyn ystyried mathau gwahanol o ddarpariaeth, integreiddio gwasanaethau ac anghenion deilliannau.

Cyn symud i’r argymhellion ailadroddodd y Cynghorydd Bobby Feeley’r achos dros newid a’r angen i drawsnewid gwasanaethau er mwyn creu gwasanaethau cynaliadwy er mwyn cwrdd gofynion lleol a chyflawni’r deilliannau gorau posib. Nodwyd y byddai’r gwaith ar opsiynau amrywiol yn dod i ben ar adegau gwahanol.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Cabinet yn cymeradwyo:-*

*(a)* *Hafan Deg (Y Rhyl) – bod y cyngor yn archwilio partneriaeth bosib â sefydliad allanol er mwyn trosglwyddo’r adeilad iddynt, gan gomisiynu gwasanaeth gofal dydd yn yr adeilad ac, yn ogystal, galluogi asiantaethau’r trydydd sector i ddarparu gweithgareddau ymyrraeth gynnar ar gyfer pobl hŷn a fydd yn lleihau unigedd cymdeithasol, yn cefnogi annibyniaeth ac yn hybu gwytnwch. Dylai'r gwaith o ran yr opsiwn hwn gynnwys dadansoddiad cymharu costau, safon gofal a darpariaeth iaith Gymraeg rhwng y darparwr presennol ac unrhyw wasanaeth posib yn y dyfodol*

*(b)* *Dolwen (Dinbych) – bod y cyngor yn archwilio partneriaeth bosib gyda sefydliad allanol er mwyn trosglwyddo’r adeilad a’r holl wasanaeth iddynt, gan sicrhau bod Dolwen yn gofrestredig i ddarparu gofal preswyl a gofal dydd iechyd meddwl yr henoed. Dylai'r gwaith o ran yr opsiwn hwn gynnwys dadansoddiad cymharu costau, safon gofal a darpariaeth iaith Gymraeg rhwng y darparwr presennol ac unrhyw wasanaeth posib yn y dyfodol*

*(c)* *Awelon (Rhuthun) – bod y Cyngor yn archwilio’n fanwl y tri opsiwn sydd wedi eu cyflwyno o safbwynt y sefydliad hwn a bod y gwaith o ran yr opsiynau hyn yn cynnwys dadansoddiad cymharu costau, safon gofal a darpariaeth iaith Gymraeg rhwng y gwasanaeth presennol a phob un o’r tri opsiwn.*

*Yr opsiynau yw -*

- *Opsiwn 1 (y dewis a ffefrir gan y Cabinet): Bod y cyngor yn sefydlu partneriaeth gyda pherchennog Llys Awelon er mwyn datblygu fflatiau Gofal Ychwanegol ar y safle, gan ddisodli’r ddarpariaeth cymunedol a phreswyl presennol. Fodd bynnag, dylid nodi bod y Cabinet wedi cytuno na fydd*

*angen i neb adael os nad ydynt yn dymuno gwneud a bod dal modd i'w hanghenion gael eu diwallu yno.*

- *Opsiwn 2: Gweithio mewn partneriaeth gyda landlord cymdeithasol cofrestredig, gwasanaethau iechyd a'r trydydd sector er mwyn datblygu amrywiaeth o wasanaethau, gan drosglwyddo hanner yr adeilad i ddatblygu fflatiau gofal ychwanegol, o bosib fel estyniad i Lys Awelon, wrth ddefnyddio'r gweddill o bosib fel uned breswyl fechan a allai gael ei defnyddio i gwrdd gofynion gofal seibiant a sicrhau nad oes raid i unrhyw breswylydd symud oni bai eu bod yn dewis gwneud hynny.*

- *Opsiwn 3: (Awgrym gan rai aelodau) Dylai'r cyngor ymgysylltu gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn archwilio'r posibilrwydd o ddatblygu capasiti gofal nyrsio ychwanegol yn Rhuthun a fyddai wedyn yn gwella'r cynnig ar gyfer pobl hŷn yn ardal Rhuthun.*

*(d) Cysgod y Gaer (Corwen) – Bod y cyngor yn ffurfio partneriaeth gyda'r budd-ddeiliaid perthnasol (gan gynnwys PBC a'r trydydd sector) i ddatblygu'r safle yn 'ganolfan gefnogaeth' gan gynnig cyfleusterau gofal preswyl a gofal ychwanegol ynghyd â gofal yn y cartref a gwasanaeth cefnogaeth i denantiaid Cynlluniau Tai Gwarchod lleol a phoblogaeth ehangach Corwen a'r ardal gyfagos.*

*(e) bod dadansoddiad o bob opsiwn o ran pob sefydliad yn cael eu cyflwyno, wedi i'r uchod gael eu cwblhau, yn i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad er mwyn eu harchwilio cyn i'r Cabinet ddod i benderfyniad, gyda phob un yn cael ei gyflwyno fel mae'n datblygu.*

Ar y pwynt hwn (11.50am) cafwyd egwyl ar gyfer lluniaeth.

Yn absenoldeb yr Arweinydd, bu'r Dirprwy Arweinydd, y Cynghorydd Eryl Williams yn Cadeirio am weddill y trafodion.

## 6 ADRODDIAD CYLLID

Yn absenoldeb y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, cyflwynodd y Prif Swyddog Cyllid adroddiad yn rhoi manylion ynglŷn â'r sefyllfa ariannol ddiweddaraf a'r cynnydd a wnaed yn erbyn y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni. Darparwyd crynodeb o elfennau'r adroddiad -

- cyllideb refeniw'r Cyngor ar gyfer 2016/17 heb unrhyw amrywiant i adrodd amdano ar y pwynt hwn yn y flwyddyn ariannol – roedd effaith safle diwedd blwyddyn 2015/16 yn cael ei orffen ar gyfer ei gynnwys yn yr adroddiad Alldro Terfynol i'r Cabinet ym mis Mehefin
- roedd 91% o arbedion wedi eu cyrraedd yn llawn yn 2015.16 gyda'r 9% oedd yn weddill i'w cyflawni yn 2016/17 – byddai asesiad cychwynnol o arbedion 2016/17 yn cael ei ddarparu yn adroddiad Cyllid rheolaidd y Cabinet fis nesaf.
- cefndir ar safle ariannu grant refeniw Llywodraeth Cymru a diweddariad ar grantiau refeniw y disgwylir eu derbyn yn 2016/17

- amlinellwyd nifer o bwysau o fewn y gyllideb gyffredinol y mae angen i wasanaethau penodol weithredu arnynt
- bydd manylion am y gwasanaethau a ganiateir i gario tanwariant sylweddol ymlaen i ariannu prosiectau penodol yn y flwyddyn ariannol nesaf yn adroddiad Alldro Terfynol y mis nesaf, a
- diweddariad cyffredinol ar y Cyfrif Refeniw Tai, y Cynllun Cyfalaf Tai a'r Cynllun Cyfalaf (gan gynnwys elfen y Cynllun Corfforaethol).

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- roedd y setliad llywodraeth leol wedi golygu toriad o 1.3% yn y Grant Cynnal Refeniw ond mynegwyd pryderon, bod y setliad 'gwirioneddol', o ystyried toriadau i grantiau uniongyrchol, yn agosach at 1.8%
- Nododd y Cabinet waith swyddogion cyllid llywodraeth leol a'r CLICL wrth adolygu. Cynghorodd y Prif Weithredwr bod yr Arweinydd wedi gofyn am gyfarfod cynnar gyda'r Ysgrifennydd newydd dros Gyllid a Llywodraeth Lleol a byddai'n cynnwys y mater hwn i'w drafod fel mater o bryder
- mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Meirick Davies, eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod cario tanwariant gwasanaethau trosodd wedi ei gymeradwyo mewn egwyddor yn y Cabinet - o safbwynt gwaith gwella yn Wigfair, Cefn Meiriadog roedd y cynllun hwn wedi ei gymeradwyo a chytunwyd y byddai'r Prif Swyddog Cyllid yn darparu ymateb ysgrifenedig i'r Cynghorydd Davies yn hynny o beth
- Adroddodd y Cynghorydd Huw Jones ar newidiadau arfaethedig i weinyddiaeth cyllido mentrau hamdden fel chwaraeon y ddraig gan nodi ei fod o'r farn y byddai awdurdodau lleol o dan anfantais o ganlyniad
- mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Williams o safbwynt cymryd rhan o'r Grant Cynnal Refeniw a'i benodi i gyllideb gwasanaeth arall ('*topslicing*'), nododd y Prif Swyddog Cyllid na ellid darparu manylion ar y grantiau penodol yr effeithiwyd arnynt gan nad oedd trywydd tystiolaeth
- amlygwyd nifer o bwysau penodol o safbwynt Cludiant i'r Ysgol; Contract Asiantaeth Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru; pwysau chwyddiannol Gwasanaethau Cymunedol a nifer cynyddol o ysgolion yn symud i falansau diffygiol. O safbwynt Cludiant i'r Ysgol rhoddodd swyddogion ddiweddariad ar yr angen i adolygu'r polisi yn dilyn cyfres o heriau ac y dylai gael ei ariannu yn briodol. Nodwyd y diffyg mewn gofal nyrsio hefyd fel her a phwysau sylweddol yr oedd angen mynd i'r afael ag ef.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn nodi'r cyllidebau a bennwyd ar gyfer 2016/17 a'r cynnydd a wnaed o ran y strategaeth gyllidol y cytunwyd arni.*

## 7 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET

Cyflwynwyd Blaenraglen Waith y Cabinet i'w hystyried a nododd yr aelodau'r canlynol -

- byddai adroddiad ar hen Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych (Gorchymyn Prynu Gorfodol) yn cael ei ychwanegu ar y rhaglen waith unwaith y byddai syniad gwell o amserlenni yn dod i'r amlwg

- byddai adroddiad ar y Ddarpariaeth Ffydd Uwchradd yn cael ei ychwanegu ar y rhaglen waith at fis Gorffennaf

***PENDERFYNWYD*** *nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cabinet.*

**Gwahardd y wasg a'r cyhoedd**

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

**8 DYFARNU CONTRACT AR GYFER GWAREDU GWASTRAFF GWEDDILLIOL A CHOMPOSTIO GWASTRAFF GWYRDD**

Cyflwynodd y Cynghorydd David Smith yr adroddiad cyfrinachol yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor i ddyrannu un contract ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol ac un contract ar gyfer compostio gwastraff gwyrdd i'r tendrwr oedd yn cynnig y fantais ariannol fwyaf fel y manylir o fewn yr adroddiad yn unol â Rheolau'r Weithdrefn Gontractau

Roedd angen contract interim er mwyn symud y Cyngor ymlaen at y pwynt pan fyddai'r adnodd rhanbarthol ar gael (yr amcangyfrif presennol yw 2019). Roedd manylion y ceisiadau a dderbyniwyd yn ogystal â pheirianwaith sgorio wedi ei ddarparu ar gyfer pob contract, yna roedd swyddogion wedi argymell dyfarnu'r contractau i dendrwyr penodol fel y nodir yn yr adroddiad. Atebodd yr Aelod Arweiniol a swyddogion gwestiynau gan aelodau ynglŷn ag opsiynau'r adnoddau trin a gwaredu. Awgrymodd y Cynghorydd Eryl Williams ddatganiad i'r wasg yn nodi na fyddai gwastraff gweddilliol yn cael ei waredu mewn safle tirlenwi yn y dyfodol.

***PENDERFYNWYD*** *bod y Cabinet yn cymeradwyo dyfarnu un contract ar gyfer gwaredu gwastraff gweddilliol ac un contract ar gyfer compostio gwastraff gwyrdd i'r tendrwyr a enwir fel y manylwyd yn yr adroddiad.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.40pm